"'Ein Tad yn y nefoedd, sancteiddier dy enw; deled dy deyrnas;'"
(Mathew 6:9-10)

Wrth ein dysgu sut i weddïo, mae Iesu'n ein dysgu i ganolbwyntio ar ein Duw cyn canolbwyntio ar ein hanghenion a'n deisyfiadau. Mae hyn yn ein hatgoffa bod gweddi yn dyfnhau cymundeb yn ogystal ag yn sicrhau bendithion inni.

Enw sanctaidd

Mae enw Duw yn gyfystyr â Duw ei hun yn y Beibl. Mae sancteiddio'i enw, felly, yn golygu gwerthfawrogi sancteiddrwydd y person dwyfol. Mae'n weithred o fawl, felly, ond hefyd yn weddi y bydd llawer mwy o bobl yn gweld ac yn rhyfeddu at ei briodoleddau. Dyma rai:

1. Awdur bywyd

Gallwn ddechrau trwy ganmol ein Creawdwr a'n Cynhaliwr: **"Ond yr Arglwydd yw'r gwir Dduw; ef yw'r Duw byw a'r brenin tragwyddol…Gwnaeth ef y ddaear trwy ei nerth, sicrhaodd y byd trwy ei ddoethineb, estynnodd y nefoedd trwy ei ddeall"** (Jer. 10:10,12). Mae hyn yn ein hatgoffa o'n dibyniaeth arno, ac o'i allu mawr Ef hefyd.

2. Digyfnewid

Mae'n gysur mawr i wybod na all Duw fod yn wahanol i'w hunan unrhyw bryd. Wrth ymwneud â'n gilydd fel dynoliaeth, rhaid i ni ddysgu bod gwahanol amgylchiadau ac amodau bywyd yn gallu'n newid ni mewn ffordd syfrdanol ar brydiau. Ni all Duw newid er gwell nac er gwaeth.

Yr Arglwydd sydd yr un, er maint derfysga'r byd;
er anwadalwch dyn, yr un yw ef o hyd; (*David Jones*)

3. Hollalluog

Dyma briodoledd arall sydd wedi ysgogi gweddi ar hyd y canrifoedd. Mae'n Dduw yr amhosibl. Yn aml, cawn ein hunain yn wynebu'r amhosibl a'r anobeithiol. Efallai ein bod yn amau a ddown drwy ryw storm, neu'n amau a all y person a weddïwn drosto ddod i gredu. Dyma eiriau Iesu: **"ond gyda Duw y mae pob peth yn bosibl"** (Math. 19:26)

4. Hollgyfoethog

Dydy Duw ddim yn rhedeg allan o'i briodoleddau na'i fendithion. Mae'n ei gynnig ei hun fel y siop gornel i ni; does dim yn rhy fach na'n rhy fawr i'w gyflwyno ger

ei fron. Dydy'r stoc byth yn gwagio chwaith. Does pall ar ei amynedd, ei drugaredd, ei ras na'i gariad.

Mae cofio sancteiddrwydd Duw yn gymorth i'n gweddi, felly. Dylai hefyd ein hatal rhag rhai peryglon:

Dylai cofio enw Duw ein cadw rhag **beiddgarwch** afiach. Gan ein bod yn cael dod mor agos, mor hawdd, mor gyfleus at orsedd y nef, gallwn lithro i hyfdra amhriodol.

Mae cofio priodoleddau Duw yn help i ni beidio â **cholli gwerthfawrogiad** o'r fraint a gawn. Mae'r hawl i ddod at Dduw yn rhad ac am ddim i ni, er ei fod wedi costio gwaed y groes i Dduw. Mae tueddiad yn y natur ddynol i ddibrisio rhywbeth sydd am ddim; dylai myfyrio ar berson Duw ein cadw rhag hynny.

Mae cydnabod cymeriad Duw yn help i'n cadw rhag **amarch**. Mae Duw mor dda tuag atom, mae mor dyner gyda ni, nes bod perygl i ni fynd yn amharchus ein meddwl a'n hagwedd tuag ato.

Y deyrnas

Wrth weddïo'r weddi yma rŷn ni'n cydnabod brenhiniaeth Duw a brenhiniaeth Crist, thema fawr yn y Beibl. Rŷn ni'n dweud ein bod yn credu bod ein Brenin yn nerthol, yn gyfoethog, yn fuddugoliaethus ac yn dda. Er fod Duw yn cael ei wrthod a'i gasáu gan filiynau ar hyn o bryd, credwn y daw diwedd ar y byd presennol ac y daw dydd y greadigaeth newydd gyda pherffeithrwydd wedi ei adfer. Bydd pawb yn plygu, a bydd ei bobl yn ei addoli a'i garu am byth. Bydd yr her ddieflig i'w frenhiniaeth wedi dod i ben.

Deled

Wrth gwrs, dydy popeth ddim wedi ei gyflawni eto. Rŷn ni'n awyddus i'n huniaethu'n hunain â chynllun Duw yn ei deyrnas, ac i weld cynnydd ynddi.

Mae'n frwydr barhaus i'n hildio'n hunain i lywodraeth Duw. Mae mor hawdd i bethau cyfreithlon bywyd lithro i'r brig, boed yn deulu, yn yrfa, yn hobi neu'n unrhyw beth arall. Felly, mae'r cais yma'n mynegi awydd i Dduw feddiannu'n bywydau ni fel Brenin. Mae hyn yn wir amdanom ni'n bersonol, am ein teuluoedd ac am ein heglwysi hefyd.

Rŷn ni'n credu bod eraill i ddod i gredu yng Nghrist ar draws ffiniau gwlad a chenedl, ac felly rhaid gweddïo dros waith yr Efengyl dros yr holl fyd. Tra bod llwyddiant mewn rhai gwledydd, fe fydd gwendid mewn mannau eraill, ac mae angen gweddïo dros hynny. Gyda phob enaid ddaw at Grist, mae ffiniau'r deyrnas yn cael eu hymestyn rywfaint eto, ac mae'r diafol yn colli tir.

Mae myfyrio ar Dduw yn hanfodol i'n harwain i weddïo trwy ffydd ac yn ôl ei ewyllys.